
# NARATIF

Nodwch beth wyddoch chi am Mathew yn eu trefn gronolegol.

Beth yw'r geiriau croes i "haerllug" a "main"?




Y bachgen rownd bapur oedd Matthew, wedi bod yn gweithio i Mr Hughes ers rhyw chwe mis bellach. Roedd wedi dod i mewn i'r siop un bore Llun, a gofyn yn blwmp ac yn blaen i Mr Hughes a oedd ganddo swydd iddo. Fel yr oedd hi'n digwydd, roedd y bachgen rownd bapur a oedd yn gweithio iddo ar y pryd wedi bod yn hwyr bob bore ers wythnos a mwy, ac felly fe gafodd Matthew'r swydd yn y fan a'r lle. A'r cwbl a gafodd y llall oedd y sac!

"Bore da, Matthew," meddai Mr Hughes pan gerddodd drwy'r drws y bore hwnnw. Doedd Matthew ddim yn un a oedd yn defnyddio llawer o eiriau, felly fe roddodd wên yn lle. Gwenodd Mr Hughes hefyd, hanner y wên i ateb Matthew, a'r hanner arall yn chwerthiniad bach iddo fo'i hun mai'r un drefn oedd hi bob bore bellach. Y 'bore da, Matthew' gan Mr Hughes yn cael ei ateb efo dim byd ond gwên gan Matthew. Byddai rhai pobl yn meddwl bod Matthew ychydig yn haerllug ddim yn ateb, ond roedd Mr Hughes wedi dod i'w nabod yn ddigon da i wybod mai un fel yna oedd Matthew, a dyna ni. Bachgen y geiriau prin.

Casglodd Matthew ei fag llawn papurau, ac allan ag ef i wynt main Tachwedd. Roedd yn gwybod ei ffordd drwy'r dre yn iawn erbyn hyn. Heibio i'r clwb a'r ysbyty, y ganolfan siopa a'r eglwys. Cofiai pa dai oedd yn cael pa bapur, a chofiai fynd â'r bag gwag yn ôl i Mr Hughes ar ei ffordd adref, yn barod i'w lenwi erbyn y bore canlynol. Dwy awr a hanner o daith o amgylch y dref. Dwy awr a hanner bob bore mewn gwynt a glaw, haul a niwl, mellt a tharanau. Wrth i Matthew gerdded allan o'r siop, gofynnodd Mr Hughes iddo mewn tri gair syml, 'Mam yn iawn?' A'r ateb a gafodd oedd... gwên.

'Abigail ... yma ... Sam ... yma ... Sara ... yma ... Hannah ... yma Matthew ...'

Tawelwch.

Ni chododd Mr Roberts ei ben, dim ond symud ymlaen i alw enwau gweddill y dosbarth. Roedd Matthew yn absennol. Roedd Matthew yn absennol bron bob dydd erbyn hyn.

Rhyddid – Tom Lewis – CAA Aberystwyth

A welwch chi enghraifft o restru yn y darn? Beth yw pwrpas hynny? Cofiwch fod mwy nag un enghraifft.

Beth yw ystyr "bachgen y geiriau prin"?

Mae enghreifftiau o frawddegau byrion yn y darn. Ydyn nhw'n effeithiol? Pam?